

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward Ynys, Ysbyty Arch Noa i Blant
Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 27 a 28 Tachwedd 2023

Dyddiad cyhoeddi: 28 Chwefror 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-655-1

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	20
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	22
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	33

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 27 a 28 Ionawr 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Ynys - 24 o welyau sy'n darparu gwasanaethau meddygol pediatrig.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 17 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#)

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Rhoddodd y cleifion a'u perthnasau adborth cadarnhaol iawn ar y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd. Roedd hyn yn cynnwys sylwadau yn ein holiadur a oedd yn canmol staff y ward. Dywedwyd bod y staff yn rhagorol ac yn arbennig.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod amrywiaeth o gyfarpar a gweithgareddau ar gael i ddiwallu anghenion unigol y plant. Roedd hyn yn cynnwys cyfarpar symudedd ar gyfer plant ag anableddau a theganau datblygiadol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.

Gwelsom fod y staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd, a'u bod wedi gwneud ymdrech i ddiogelu eu preifatrwydd a'u hurddas wrth ddarparu gofal.

Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd y cleifion yn cael gofal da iawn a gwelsom fod y staff yn ymateb yn brydlon i geisiadau'r cleifion am gymorth.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd i'w gweld ar hysbysfyrddau am anhwylderau iechyd cyffredin megis diabetes ac asthma.

Gwelsom fod pryddau bwyd yn cael eu darparu'n rheolaidd drwy gydol y dydd. Roedd y rhieni yn gallu cael gafael ar fwyd a diodydd yn unrhyw un o'r ddwy gegin ar gyfer rhieni a oedd ar y ward.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu gwybodaeth am fwyta'n iach a rhoi'r gorau i smygu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd
- Gwelsom fod yr ardaloedd chwarae yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.
- Gwelsom ei fod yn darparu amrywiaeth eang o opsiynau bwyd a bod y rhieni yn gallu defnyddio dwy gegin i baratoi diodydd poeth a byrbryddau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal ar Ward Ynys yn ddiogel ac yn effeithiol. Gwelsom fod trefniadau da ar waith i gynllunio a rhoi gofal ar waith, megis asesiadau risg, prosesau trosglwyddo ar lafar a chynlluniau gofal. Hefyd, gwelsom fod systemau da ar waith i ddiwallu anghenion maeth a hydradu'r cleifion.

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r broses o storio nodiadau meddygol yn ddiogel.

Roedd y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn ddigonol. Roedd y ward yn lân, yn daclus a heb unrhyw annibendod. Roedd y ward a'r cyfarpar yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, ac roedd yn bosibl glanhau'r arwynebeddau'n ddigonol.

Gwelsom fod angen gwelliannau o ran storio mathau penodol o feddyginiaethau. Ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad, a rhoddyd system ar waith ar gyfer rhoi dyddiadau defnyddio ar feddyginiaethau ailansoddedig drwy'r geg.

Gwelsom fod nyrs iechyd meddwl yn gweithio ar y ward a oedd yn darparu hyfforddiant gwerthfawr i staff y ward ac yn rhannu gwybodaeth â nhw.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Nid oedd y cyfarpar dadebru yn cael ei wirio'n rheolaidd
- Nid oedd gwiriadau tymheredd yr oergell storio cyffuriau yn cael eu cynnal yn gyson
- Nid oedd gwiriadau tymheredd yr oergell storio llaeth yn cael eu cynnal yn gyson.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol yn cael ei ddefnyddio'n briodol
- Sicrhau y caiff cofnodion meddygol eu storio'n ddiogel
- Ystyried cyfrinachedd cleifion wrth ddefnyddio enwau llawn ar fyrddau Cipolwg ar Statws Cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom fod y cofnodion meddygol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cynnwys cynlluniau gofal manwl
- Gwelsom fod cynlluniau ar waith i symleiddio'r broses bontio ar gyfer cleifion sy'n dychwelyd adref
- Gwelsom asesiadau risg manwl gan Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu i nyrsys y ward.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dystiolaeth bod arweinyddiaeth dda ar y ward ac ymgysylltodd y rheolwyr yn gadarnhaol iawn yn ystod y broses arolygu. Roedd y staff yn awyddus i ddysgu o'r broses ac roeddent yn ymatebol iawn wrth i ni godi unrhyw bryderon.

Roedd yr ymatebion o'r holiadur staff yn eithaf cadarnhaol, ond codwyd pryderon mewn perthynas â phwysau staffio. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o siarad â'r staff eu bod yn gwbl ymrwymedig i ddarparu gofal o safon dda i'r cleifion.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff system archwilio i fonitro ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir ar y wardiau. Roeddem o'r farn bod hyn yn briodol.

Roedd gan y bwrdd iechyd raglen hyfforddiant gorfodol gynhwysfawr. Roedd yn gadarnhaol gweld cyfradd gydymffurfio dda, lle roedd 85% o'r staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd arddangos yr adborth a nodir mewn arolygon staff
- Dylai'r bwrdd iechyd arddangos y broses Gweithio i Wella ar y ward.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Arweinyddiaeth dda lle roedd y rheolwyr yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt
- Gwelsom fod dull rhagweithiol ar waith gan y rheolwyr i'r broses staffio lle edrychir ar yr ysbyty cyfan
- Gwelsom fod sesiynau briffio diogelwch strwythuredig yn cael eu cynnal â phresenoldeb da, a oedd yn cael eu cyfleu i grwpiau staff ehangach.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron. Roedd sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol iawn ac yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff gofal yn rhagorol”

“Mae pob aelod o'r staff yn arbennig iawn. Rydym wrth ein boddau eu bod yn mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau bob amser.”

“Mae'r staff yn ddymunol iawn ac maent bob amser yn gwneud yn siŵr fy mod yn hapus ac yn ddiogel”

Gwnaethom ofyn beth y gellid ei wneud i wella'r gwasanaeth. Codwyd pryderon mewn perthynas â chyfathrebu, gan gynnwys y canlynol:

“Cyfathrebu rhwng timau ac aelodau o'r staff a ni fel rhieni yw'r prif bryder bob amser”

“Nid yw'r broses gyfathrebu yn foddhaol”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ar gael i'w gweld. Roedd gwybodaeth am anhwylderau iechyd cyffredin, megis diabetes, i'w gweld yn y prif goridor ac roedd taflenni ar gael ar gais yn Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid ychwanegu gwybodaeth am fwyta'n iach a rhoi'r gorau i smygu.

Dylai'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth am fwyta'n iach a rhoi'r gorau i smygu.

Dywedwyd wrthym nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu unrhyw le yn yr ysbyty. Mae hyn yn unol â deddfwriaeth gyfredol i helpu i atal clefydau a achosir gan fwg ail-law.

Gofal urddasol a pharchus

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd ac yn gwneud ymdrechion i gynnal eu hurddas.

Lle roedd cleifion yn cael eu lletya mewn baeau gyda sawl gwely, gwelsom lenni urddas yn cael eu tynnu. Gwelsom hefyd fod drysau i doiledau yn cael eu cau lle gellir rhoi gofal personol. Roedd yr adborth a gawsom gan y cleifion a'r perthnasau yn gadarnhaol iawn a dywedwyd bod y staff yn 'dda iawn' pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio'r gwasanaeth roeddent wedi'i gael.

Yn ôl yr hyn a welwyd, roedd y cleifion yn cael gofal da ac wedi'u gwisgo'n addas, naill ai yn eu dillad eu hunain neu mewn gynau ysbyty. Gwelsom dystiolaeth fod poen y cleifion yn cael ei mesur, bod camau yn cael eu cymryd mewn ymateb iddi a'i bod yn cael ei gwerthuso'n rheolaidd gan ddefnyddio adnodd asesu poen addas.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom fod cyfarpar symudedd ar gael i ddiwallu anghenion y plant ag anableddau. Roedd ystafell chwarae ar gael a oedd yn cynnwys teganau datblygiadol penodol i blant ag anghenion ychwanegol. Roedd teganau a chyfrifiaduron ar gael ar gyfer grwpiau oedran amrywiol hefyd. Gwelsom fod gweithgareddau'n cael eu trefnu'n rheolaidd, megis therapi cerddoriaeth, a all helpu i hyrwyddo llesiant y plant wrth gael gofal mewnol. Gwelsom fod yr ardaloedd chwarae yn lân ac yn daclus a bod amserlenni glanhau yn cael eu cadw. Roedd ardal chwarae awyr agored ar dir yr ysbyty a oedd yn daclus ac yn cynnwys adnoddau digonol.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod y gofal a'r triniaethau ar y ward yn cael eu cwblhau mewn ffordd amserol a phwyllog. Er bod y ward yn brysur, roedd yr awyrgylch yn hamddenol. Gwelsom y staff yn cyflawni tasgau a thriniaethau mewn ffordd strwythuredig a threfnus.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur i gleifion wrthym fod y staff wedi rhoi gofal iddynt pan oedd ei angen arnynt. Cytunodd pob claf a gwblhaodd yr holiadur fod botwm galw nyrs ar gael iddynt bob amser. Pan ofynnwyd a oedd y staff yn dod atynt pan oeddent yn defnyddio'r botwm, cytunodd pob claf eu bod yn gwneud hynny.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom arwyddion i helpu'r ymwelwyr i ddod o hyd i'r wardiau ac i wardiau ac adrannau eraill yn yr ysbyty. Gwelsom fod y rhain yn hawdd i'w dilyn ar y cyfan. Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth cyfieithu ar gael yn ôl y gofyn.

Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth yn cael ei harddangos, gan gynnwys bwrdd "Dywedoch chi, Gwnaethon ni". Roedd y bwrdd hwn yn dangos sylwadau'r plant a oedd wedi cael gofal ar y ward.

Hawliau a Chydraddoldeb

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd a oedd yn cydnabod eu hanghenion a'u hawliau unigol. Gwelsom fod gofalwyr yn bresennol ac yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y broses o ddarparu gofal.

Er bod cyfyngiadau ar waith, dywedwyd wrthym fod ffrindiau a pherthnasau yn gallu ymweld â'r cleifion. Dywedwyd wrthym y gallai un rhiant neu warcheidwad aros gyda'r claf yn ystod ei gyfnod yn yr ysbyty. Roedd cadeiriau gogwyddol a gwelyau dros dro ar gael ger pob gwely er mwyn i'r rhieni aros dros nos. Roedd y rhieni yn gallu cael bwyd a diodydd heb adael y ward yn un o'r ddwy gegin ar gyfer rhieni.

Darparodd yr uwch-aelodau o'r staff ffigurau cydymffurfio i ni a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth fel rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y ward yn hygyrch i'r cleifion, y staff a'r ymwelwyr a bod system intercom ar waith i gael mynediad i'r ward er mwyn sicrhau diogelwch. Roedd y ward wedi'i lleoli ar yr ail lawr ac roedd yn hawdd ei chyrraedd o brif fynedfa'r ysbyty drwy ddefnyddio lifftiau neu'r grisiau.

Gwelsom fod ardaloedd y ward yn daclus ac nad oedd unrhyw annibendod. Roedd hyn yn sicrhau bod digon o le ar gael pan roedd angen symud cadeiriau olwyn, stretsieri a throlïau.

Roedd yr uwch-aelodau o staff yn disgrifio trefniadau addas ar gyfer adrodd, cofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau ac i ddarparu adborth i staff y ward.

Yn ystod ein hadolygiad o gofnodion, gwelsom fod cynlluniau gofal priodol ar waith yn unol â'r risg a nodwyd. Roedd hyn yn cynnwys adnodd sgrinio briwiau pwyso pediatrig. Gwelsom fod canllawiau adnabod a thrin sepsis ac adnodd sgrinio am sepsis ffurfiol yn cael eu dilyn a'u defnyddio'n briodol.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd y ward i'w gweld yn lân iawn ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda. Roedd cyfarpar yn cael ei lanhau rhwng defnydd gan y cleifion ac yn cael ei osod mewn storfa ddynodedig pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio. Gwelsom fod matresi a gwelyau'n cael eu glanhau ar ôl i gleifion eu defnyddio ac roeddent yn cael eu harchwilio'n wythnosol. Gwelsom fod staff glanhau i'w gweld ar y ddwy ward yn ystod yr arolygiad. Gwelwyd bod ardal y ward mewn cyflwr da ac roedd y dodrefn yn golygu bod modd eu glanhau'n effeithiol.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol a hylif dwylo digonol ar gael ym mhob rhan o'r ward. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau o ddefnydd amhriodol o gyfarpar diogelu personol, megis lle nad oedd y staff wedi tynnu eu menig a'u ffedogau wrth adael yr ardaloedd clinigol.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o sut i ddefnyddio'r cyfarpar diogelu personol yn gywir mewn perthynas â gwisgo a diosg y cyfarpar.

Gwelsom fod dulliau ynysu addas ar waith. Dywedwyd wrthym pe bai angen ynysu claf er mwyn hwyluso gwaith atal a rheoli heintiau, byddai un o'r ciwbiclau yn cael ei ddefnyddio i gyflawni gwaith nyrsio ataliol.

Diogelu plant ac oedolion

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff drefniadau addas ar gyfer ymateb i bryderon diogelu. Gwelsom fod polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith. Roedd y rhain yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o staff y gallai'r staff gysylltu ag arweinydd diogelu'r bwrdd iechyd i gael cyngor ar faterion diogelu. Dywedwyd wrthym am nifer o enghreifftiau lle roedd gweithdrefnau diogelu wedi cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus. Dywedwyd wrthym ei bod yn hawdd mynd at y tîm diogelu a'i fod yn mynychu cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol yn rheolaidd er mwyn cynllunio a gweithredu gofal.

Roedd hyfforddiant diogelu yn rhan o raglen hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd. Dangosodd data a ddarparwyd gan uwch-aelodau o'r staff fod cydymffurfiaeth ddigonol â hyfforddiant ar gyfer diogelu oedolion a phlant.

Rheoli gwaed

Nodwyd gennym fod trefniadau caeth ar waith i sicrhau bod cynhyrchion gwaed yn cael eu rhoi'n ddiogel. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o'r broses gywir o roi gwybod am ddigwyddiadau niweidiol mewn cysylltiad â chynhyrchion gwaed.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran y broses o roi a monitro cynhyrchion gwaed, gan gynnwys gwiriadau cleifion. Dywedwyd wrthym fod cofnod o'r holl staff sy'n gymwys i roi cynhyrchion gwaed yn cael ei gadw gan reolwyr y wardiau.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarpar ar gael i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y cleifion, megis peiriannau monitro arwyddion hanfodol i fywyd, gwelyau a chyfarpar symudedd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn cytuno fod y cyfarpar cywir ar gael iddynt helpu gyda gofal cleifion. Fodd bynnag, roedd angen gwasanaethu rhywfaint o'r cyfarpar. Uwchgyfeiriwyd y mater hwn ar adeg yr arolygiad a chafodd ei gwblhau yn ystod ein hymweliad. Cyfeirir at hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn er mwyn rhoi gwybod am gyfarpar diffygiol. Gwelsom aelodau o'r staff yn glanhau'r cyfarpar a rennir ar ôl ei ddefnyddio er mwyn atal achosion o groes-heintio.

Nodwyd gennym fod y cyfarpar dadebru wedi'i leoli mewn ardal hygrych a chanolog ar y ward. Gwelsom fod lluniau o'r cyfarpar i'w gweld yn y lleoliad hwn er mwyn ei

gwneud yn hawdd i'r staff nodi'r darnau o gyfarpar yn gyflym yn ôl yr angen mewn argyfwng. Gwnaethom nodi hyn fel arfer da.

Nodwyd gennym nad oedd y cyfarpar dadebru wedi cael ei wirio'n rheolaidd bob dydd. Gwnaethom dynnu sylw at hyn fel maes i'w wella ar unwaith. Nid oedd yr archwiliadau o'r trolïau dadebru wedi'u cynnal yn unol â gweithdrefn y Bwrdd Iechyd a Chanllawiau Resus UK. Gwelsom dystiolaeth o fylchau mynych ar y trolïau dadebru sydd wedi'u lleoli ar y ward.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) o'r adroddiad hwn.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi, eu dogfennu a'u rhoi yn gywir yn unol â'r polisi rheoli meddyginiaethau. Roedd cyffuriau yn cael eu storio mewn storfa gyffuriau ac ystafell baratoi dan glo. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom sawl eitem o feddyginiaeth yr oedd y dyddiad defnyddio wedi mynd heibio arni. Cafodd yr eitemau hyn eu symud o'r ardaloedd. Uwchgyfeiriwyd y mater hwn i reolwr y ward ac unionwyd y mater ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd ymateb cyflym a gweithredoedd y staff i'n ceisiadau yn gadarnhaol iawn. Roedd y rheolwyr wedi rhoi proses newydd ar waith er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau ailansoddedig ar gael yn ystod ein hymweliad. Cyfeirir at hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Gwelsom fod cyffuriau a reolir yn cael eu gwirio'n ddyddiol a bod y staff yn cwblhau'r ddogfennaeth. Roedd y ddogfennaeth hon yn cael ei harchwilio'n rheolaidd, a gwelsom dystiolaeth o hyn ar y gronfa ddata.

Nodwyd bod y polisi rheoli meddyginiaethau yn ddigon cadarn. Fodd bynnag, nid oedd tymereddau'r oergelloedd storio meddyginiaeth yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n gyson bob dydd.

Ymdriniwyd â'r mater hwn o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC a chyfeirir ato yn [Atodiad B](#) yr adroddiad hwn.

Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd arddangos y protocol uwchgyfeirio i weithredu pe byddai tymereddau'r oergelloedd yn mynd y tu hwnt i'r paramedrau a argymhellir.

Roedd gan y ward fferylllydd dynodedig ac roedd modd i'r staff gael gafael ar feddyginiaeth gan reolwr y safle y tu allan i oriau. Nododd y staff eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar feddyginiaethau a'u bod yn cael eu cefnogi gan staff y fferyllfa.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaethau yn cael eu trefnu i sicrhau bod modd symud trwy lwybrau gofal yn effeithiol. Gwelsom fod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i'r timau amlddisgyblaethol cyn rhyddhau cleifion.

Gwelsom gyfathrebu da rhwng y staff a oedd yn cynnwys y broses trosglwyddo rhwng shifftiau a sesiynau briffio diogelwch. Roedd trefniadau ar waith i rannu'r wybodaeth â'r timau ehangach. Gwelsom asesiadau risg manwl gan Wasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu i nyrsys y ward.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o sut i gael gafael ar bolisiau a gweithdrefnau clinigol yr ysbyty er mwyn eu cefnogi wrth ymarfer.

Roedd bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion (PSAG) i'w weld yn glir. Roedd y bwrdd hwn yn cynnwys symbolau lluniau a oedd yn dangos statws pob claf er mwyn helpu'r broses gyfathrebu rhwng aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, roedd enwau llawn y cleifion wedi cael eu defnyddio ac felly nid oedd yn diogelu cyfrinachedd y cleifion.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried defnyddio blaenlythrennau'r cleifion yn hytrach na'u henwau llawn er mwyn diogelu cyfrinachedd.

Maeth a hydradu

Roedd gwybodaeth mewn perthynas ag anghenion maeth y claf yn cael ei rhoi adeg trosglwyddo'r shifft a'i dogfennu yng nghofnodion y cleifion. Roedd y rhieni yn gallu helpu'r plant a oedd angen cymorth i fwyta ac yfed. Gwelwyd bod dŵr ar gael i'r cleifion a bod diodydd poeth yn cael eu gweini o gwmpas adeg prydau bwyd neu ar gais.

Gwelsom fod prydau bwyd yn cael eu gweini mewn modd amserol ac yn rheolaidd yn ystod y dydd. Gwelsom fod byrbrydau ar gael ar gais ac y gellid defnyddio peiriant gwerthu y tu allan i oriau.

Gwelsom fod anghenion maethol y cleifion yn cael eu hasesu fel rhan o hanfodion gofal. Hefyd, roedd y ward yn defnyddio asesiad maethol wedi'i ddilysu er mwyn asesu anghenion unigol pob claf.

Cofnodion cleifion

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn gyfredol a bod y nodiadau'n dangos tystiolaeth fod y gofal yn cael ei asesu a'i werthuso. Roedd y ddogfennaeth o safon dda ar y cyfan. Roedd y cofnodion ar gael i holl aelodau'r tîm amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel nac yn gyfrinachol.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cypyddau dan glo a sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth.

Effeithlon

Effeithlon

Yn ystod ein hadolygiad o gofnodion, gwelsom fod llwybr syml o'r adran achosion brys i'r ward. Gwelsom fod y tîm amlddisgyblaethol yn cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac yn ei thrafod yn effeithiol, gyda thasgau ac anghenion gofal yn cael eu dyrannu'n glir. Dywedwyd wrthym y gall cleifion ddychwelyd i'r ward hyd at 24 awr ar ôl cael eu rhyddhau o'r ward.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i'r cleifion (11/17). Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan eu hysbyty ar eu cyfer eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu (12/17). Dywedodd dros hanner yr ymatebwyr wrthym y byddent yn argymhell eu sefydliad fel lle i weithio ynddo (10/17).

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Rwy'n falch o fod yn gweithio yn yr ysbyty i blant Cymru ac yn hynod o falch o'r gofal rydym yn ei ddarparu i'n plant a'u teuluoedd. Er gwaethaf yr heriau rydym yn eu hwynebu yn y GIG, rydym yn parhau i geisio gwella profiad y claf.”

“Gyda lefelau staffio isel a'r galw mawr am ofal i gleifion, mae'n anodd darparu gofal o ansawdd i gleifion a'u teuluoedd fel arfer. Mae problem fawr mewn perthynas â chyfarpar ar y ward. Er enghraifft, rydym yn chwilio am chwiliedyddion dirlawnder er mwyn cynnal arsylwadau yn gyson. Rydym hefyd yn ei chael hi'n anodd benthyg gan wardiau eraill gan eu bod yn yr un sefyllfa.”

“Mae gofal cleifion wrth wraidd y sefydliad.”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Nodwyd bod strwythur rheoli addas ar waith a chafodd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir eu disgrifio a'u hamlygu. Cadarnhaodd yr uwch-aelodau o'r staff eu bod yn ymweld â'r ward yn rheolaidd a'u bod ar gael i roi cyngor a chymorth i reolwyr y wardiau a thimau'r wardiau.

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff system ar gyfer archwilio a darparwyd enghreifftiau yn dangos y broses hon. Gwelsom fod amrywiaeth o archwiliadau wedi'u cynnal a oedd wedi'u cofnodi ar gronfa ddata ar-lein.

Gwelsom fod trefniadau monitro ansawdd a diogelwch da ar y ward. Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol a diweddariadau i bolisiau a gweithdrefnau gyda thimau ehangach y wardiau.

Yn ystod ein harolygiad, nodwyd bod rheolwyr y ward yn ymgysylltu'n gadarnhaol ac yn gydweithredol â phroses arolygu AGIC. Gwnaethant ddangos ymrwymiad i ddysgu o'r arolygiad a gwneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom fod amrywiaeth eang o staff yn gweithio ar y ward. Roedd hyn yn cynnwys: meddygon, nyrsys, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, staff cymorth gofal iechyd, staff gweinyddol, staff arlwyo/gweini a staff domestig.

Yn ystod ein harolygiad, roedd y lefelau staffio a'r cymysgedd sgiliau i'w gweld yn briodol i ddiwallu'r anghenion a aseswyd ar gyfer y cleifion. Dywedwyd wrthym fod staff banc yn cael eu defnyddio i gyflenwi unrhyw ddiffygion staffio nad oedd modd i aelodau o dîm y ward eu cyflenwi. Gwelsom fod dull rhagweithiol ar waith gan y rheolwyr i'r broses staffio lle edrychir ar yr ysbyty cyfan.

Dywedodd rheolwr y ward wrthym ei fod yn defnyddio'r rhaglen ddigidol Safe Care i sicrhau bod y nifer cywir o staff yn bresennol ar gyfer y lefel aciwtedd ar y ward. Roedd hyn yn cael ei gwblhau ddwywaith y dydd wrth newid shiftt a gellir hefyd ei ddiweddarau ar unrhyw adeg yn ystod y shiftt lle roedd newid mewn staff neu sefyllfa'r claf.

Dangoswyd manylion y staff ar fwrdd wrth y fynedfa i'r ward lle gallai'r cleifion a'r ymwelwyr edrych arnynt yn glir. Roedd hyn yn cynnwys enw a rôl yr aelod o'r staff a pha liw wisg y mae'n ei gwisgo.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus ynghylch pwy i roi gwybod am bryderon a phryd.

Gwnaethom ofyn am fanylion hyfforddiant staff gorfodol. Roedd cydymffurfiaeth yn dda ar gyfer mwyafrif y pynciau ac roedd dros 85% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff yn cael arfarniad blynyddol a oedd yn cael ei ddogfennu a'i gofnodi mewn ffeiliau staff unigol. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda chyfle i gynnal cyfarfodydd yn fwy rheolaidd os oedd angen.

Roedd y staff yn deall sut i roi gwybod am ddigwyddiadau yn glir. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, a oedd yn cynnwys cwblhau adroddiad digwyddiadau Datix.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod rheolwyr i'w gweld ar y ward ac roeddent i'w gweld yn gyfeillgar a phroffesiynol. Gwelsom fod y rheolwyr yn cymryd rhan wrth ddarparu gofal ac yn helpu gyda'r prosesau trosglwyddo rhwng shifftiau a'r rowndiau meddygol.

Roedd y ward yn dilyn proses gwyno Gweithio i Wella. Roedd llenyddiaeth ar gael ar gais. Fodd bynnag, nid oedd manylion am hyn i'w gweld ar y ward.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion y polisi cwynion yn cael eu harddangos ar y ward.

Dywedodd y rheolwyr wrthym fod cwynion yn cael eu dogfennu yn nodiadau'r cleifion ac ar system Datix. Roedd y cwynion yn cael eu nodi mewn cronfa ddata ac roedd rheolwyr y wardiau a'r tîm gweithio i wella yn ymchwilio iddynt. Roedd rheolwyr y wardiau'n rhannu gwersi a ddysgwyd trwy sesiynau briffio ar ddiogelwch, negeseuon e-bost a thrwy grŵp WhatsApp y ward.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Dywedwyd wrthym fod y ward yn rhyngweithio â phartneriaid allweddol, megis yr awdurdodau lleol a byrddau iechyd allanol, er mwyn dychwelyd neu ryddhau cleifion yn ôl i'r gymuned. Gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad, lle roedd gofalwyr cartref yn cael eu gwahodd i gysgodi nyrsys y ward er mwyn ymgysylltu ag arferion gofal y claf. Gwelsom fod nyrsys arbenigol yn bresennol ar y ward a oedd yn cysylltu â phartneriaid allanol i ddarparu addysg a'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod yr arolygiad, gwelsom gyfarpar yr oedd y dyddiad arno wedi mynd heibio yn y storfa.	Roedd hyn yn peri risg y byddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y cleifion a all fod wedi arwain at niwed.	Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio i reolwr y ward a'r nyrs arwain ar unwaith.	Cafodd pob cyfarpar yr oedd y dyddiad arno wedi mynd heibio ei symud o'r storfa a chynhaliwyd gwiriad stoc llawn. Datblygwyd system ar gyfer gwirio stoc a rhoddwyd sicrwydd i AGIC.
Yn ystod ein harolygiad, gwelsom feddyginiaeth yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio yn yr ystafell paratoi cyffuriau.	Roedd hyn yn peri risg y byddai'n cael ei roi i'r cleifion a allai arwain at niwed.	Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio i reolwr y ward a'r nyrs arwain ar unwaith.	Symudwyd pob meddyginiaeth yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio a chynhaliwyd cyfarfod â staff y fferyllfa i gytuno ar broses lle roedd label yn cael ei gosod ar feddyginiaeth i nodi ei dyddiad dod i ben ac i waredu meddyginiaeth ar ôl y dyddiad hwn.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 27 a 28 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Nid oedd yr archwiliadau o'r troliau dadebru wedi'u cynnal yn unol â gweithdrefn y Bwrdd lechyd a chanllawiau Resus UK.</p> <p>Gwelsom dystiolaeth o fylchau mynych ar y troliau dadebru sydd wedi'u lleoli ar y ward.</p>	<p>Mae hyn yn peri risg i ddiogelwch cleifion gan y gallai eitemau o gyfarpar fod ar goll ac felly ni fyddent ar gael ar unwaith pan fyddai eu hangen mewn argyfwng.</p> <p>Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau y caiff archwiliadau eu cwblhau a'u cofnodi bob amser, a bod dulliau cadarn ar waith i nodi pan na chaiff archwiliadau eu cwblhau neu eu cofnodi ac i unioni'r sefyllfa.</p>	<p>Ategwyd polisi'r Bwrdd lechyd a'r gofyniad i gwblhau gwiriadau ar y troli dadebru a'r diffibriliwr i bob aelod o'r staff drwy gynnal sesiynau briffio diogelwch ddwywaith y dydd.</p> <p>Mae'r camau archwilio a sicrwydd sydd wedi cael eu cymryd ac a fydd yn parhau wedi'u nodi isod:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Bydd y gofyniad i gwblhau'r rhestrau	<p>Prif Nyrsys y Ward a Dirprwy Brif Nyrsys y Ward</p> <p>Prif Nyrsys y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

		<p>gwirio yn cael eu hailbwysleisio i'r staff yn ystod sesiynau briffio diogelwch ddwywaith y dydd. At hynny, mae gan bob ward yn yr Ysbyty i Blant Cymru y rhestrau gwirio gofynnol ar waith ac maent wedi cael eu briffio ar y weithred ofynnol i'w cwblhau. Bydd y mater hwn yn cael ei drafod mewn sesiynau briffio diogelwch o hyd nes y bydd yr archwiliadau'n dangos bod yr arfer wedi cael ei ymgorffori.</p>		Wedi'i gwblhau
		<p>2. Er bod y cwestiynau archwilio ynghylch gwiriadau o gyfarpar dadebru dyddiol wedi cael eu cynnwys yn archwiliadau misol Tendable yn flaenorol, maent bellach wedi</p>	Yr Arweinydd Ansawdd a Diogelwch ar gyfer Iechyd Plant Acíwt ac Uwch-nyrs BIP ar gyfer Safonau Proffesiynol	Wedi'i gwblhau

		<p>cael eu haralleirio. Gwneir yr addasiad hwn, a fydd yn cael ei ymgorffori ym mhob rhan o BIP, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu dangos tystiolaeth bod y gwiriadau'n cael eu cwblhau a'u cofnodi'n unffurf drwy gydol y mis.</p> <p>3. Mae archwiliad hapwiriadau ategol Tendable wedi cael ei gynnal er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl safonau y tynnwyd sylw atynt yn yr arolygiad (gwiriadau'r oergelloedd llaeth, yr oergelloedd cyffuriau a'r cyfarpar dadebru). Bydd yr archwiliad ychwanegol hwn yn cael ei gynnal o leiaf ddwywaith y mis ar Ward Ynys hyd nes y</p>	<p>Yr Arweinydd Ansawdd a Diogelwch, Uwchnyrs, Nyrs Arwain</p>	<p>Wedi'i gwblhau – gwaith monitro parhaus</p>
--	--	---	--	--

		<p>bydd y gyfradd gydymffurfio â safonau yn amlwg. Bydd yr archwiliad hwn yn cael ei gynnal ym mhob ward yn yr Ysbyty i Blant Cymru.</p> <p>4. Mae adran dadebru Caerdydd a'r Fro wrthi'n cwmpasu datrysiad digidol ar gyfer cofnodi archwiliadau dadebru mewn nifer o ardaloedd i oedolion. Y gobaith yw y bydd y system newydd hon yn sicrhau y gellir cynnal gwiriadau digidol ar y troli dadebru'n rheolaidd, gan gynnwys dyfeisiau allanol y diffibrilwyr. Nid yw dichonoldeb defnyddio system o'r fath ar wardiau plant wedi'i nodi eto, ond os bydd hyn yn dod yn realiti</p>	<p>Cyfarwyddwr Nyrsio Gwybodeg Bediatrig Arweiniol</p>	<p>Mehefin 2024</p>
--	--	--	--	---------------------

		gweithredol, bydd y Cyfarwyddwr Nyrsio yn ei rhoi ar waith yn gyflym.		
Nid oedd tymereddau'r oergelloedd storio cyffuriau yn cael eu gwirio'n gyson er mwyn sicrhau bod y cyffuriau yn cael eu cadw'n addas i'w defnyddio. At hynny, nid oedd yn glir pa gamau gweithredu y dylai'r staff eu cymryd pe byddai'r tymereddau'n mynd y tu hwnt i'r paramedrau a argymhellir.	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau y caiff archwiliadau eu cwblhau a'u cofnodi bob amser, a bod dulliau cadarn ar waith i nodi sut y gall y staff uwchgyfeirio'r mater pan na fydd y tymereddau o fewn y paramedrau gorau.	<p>Mae polisi'r Bwrdd Iechyd a'r gofyniad i gwblhau gwiriadau ar yr oergell gyffuriau wedi'u hategu i bob aelod o'r staff drwy gynnal sesiynau briffio diogelwch dwywaith y dydd hefyd.</p> <p>Mae'r camau archwilio a sicrwydd sydd wedi cael eu cymryd ac a fydd yn parhau wedi'u nodi isod:</p>	Prif Nyrsys y Ward a Dirprwyon	Wedi'i gwblhau
		<ol style="list-style-type: none"> 1. Mae'r gofyniad i wirio tymereddau oergelloedd cyffuriau'r ward wedi'i ailbwysleisio i'r staff drwy'r sesiynau briffio diogelwch a gynhelir ddwywaith y dydd ar y ward. Bydd pwyslais ar gynnal sesiynau briffio diogelwch nes y 	Prif Nyrsys y Ward a Dirprwyon	Wedi'i gwblhau

bydd archwiliadau Tendable yn dangos bod yr arfer wedi cael ei ymgorffori.

2. Mae dogfen ganllaw yn cael ei datblygu er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r camau gweithredu i'w cymryd os na fydd tymheredd yr oergell o fewn yr ystod a dderbynnir. Bydd y ddogfen hon yn cael ei storio gyda phob oergell feddyginiaeth yn yr Ysbyty i Blant Cymru.

3. Er bod y cwestiynau archwilio ynghylch gwiriadau o oergelloedd cyffuriau wedi cael eu cynnwys yn archwiliadau misol Tendable yn flaenorol, maent bellach wedi cael eu haralleirio.

Cyfarwyddwr
Nyrsio'r Bwrdd
Clinigol ar gyfer
Plant a Menywod

8 Rhagfyr
2023

Yr Arweinydd
Ansawdd a
Diogelwch, Uwch-
nyrs, Nyrs Arwain

Wedi'i
gwblhau –
gwaith monitro
parhaus

Gwneir yr addasiad hwn, a fydd yn cael ei ymgorffori ym mhob rhan o BIP, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu dangos tystiolaeth bod y gwiriadau'n cael eu cwblhau a'u cofnodi'n unffurf drwy gydol y mis.

4. Mae archwiliad hapwiriadau ategol Tendable wedi cael ei gynnal er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl safonau y tynnwyd sylw atynt yn yr arolygiad (gwiriadau'r oergelloedd llaeth, yr oergelloedd cyffuriau a'r cyfarpar dadebru). Bydd yr archwiliad ychwanegol hwn yn cael ei gynnal o leiaf ddwywaith y mis ar Ward Ynys hyd nes y bydd y gyfradd

Prif Nyrs y Ward

Ionawr 2024

		gydymffurfio â safonau yn amlwg. Bydd yr archwiliad hwn yn cael ei gynnal ym mhob ward yn yr Ysbyty i Blant Cymru.		
Nid oedd tymereddau'r oergelloedd storio llaeth yn cael eu gwirio'n gyson er mwyn sicrhau bod y llaeth yn cael ei gadw'n addas i'w ddefnyddio. At hynny, nid oedd yn glir pa gamau gweithredu y dylai'r staff eu cymryd pe byddai'r tymereddau'n mynd y tu hwnt i'r paramedrau a argymhellir.	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau y caiff archwiliadau eu cwblhau a'u cofnodi bob amser, a bod dulliau cadarn ar waith i nodi sut y gall y staff uwchgyfeirio'r mater pan na fydd y tymereddau o fewn y paramedrau gorau.	<p>Mae polisi'r Bwrdd Iechyd a'r gofyniad i gwblhau gwiriadau ar yr oergell laeth wedi'u hategu i bob aelod o'r staff drwy gynnal sesiynau briffio diogelwch ddwywaith y dydd hefyd.</p> <p>Mae'r camau archwilio a sicrwydd sydd wedi cael eu cymryd ac a fydd yn parhau wedi'u nodi isod:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Mae Rhestrau Gwirio Tymheredd yr Oergell ar waith ar gyfer yr oergelloedd llaeth. Bydd pwyslais ar y mater hwn mewn sesiynau briffio 	Prif Nyrs y Ward	Wedi'i gwblhau - gwaith monitro parhaus
			Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau

		<p>diogelwch o hyd nes y bydd yr archwiliadau'n dangos bod yr arfer wedi cael ei ymgorffori.</p> <p>2. Mae Gweithdrefn Weithredu Safonol wedi cael ei datblygu ar gyfer monitro a chofnodi tymereddau'r oergelloedd llaeth ar Ward Ynys ac ym mhob ardal o'r Ysbyty i Blant Cymru. Mae'r Weithdrefn Weithredu Safonol hon yn nodi'r camau gweithredu i'w cymryd pe byddai'r oergell yn methu ac mae wedi'i gosod ar yr oergelloedd llaeth. Er mwyn hwyluso'r broses o'i defnyddio ar unwaith, mae'r Weithdrefn wedi cael ei rhannu'n eang er mwyn</p>	<p>Prif Nyrsys y Ward a Dirprwy Brif Nyrsys y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau - gwaith monitro parhaus</p>
--	--	---	--	--

		<p>ei chymeradwyo cyn ei chadarnhau yn Fforwm Ansawdd a Diogelwch y Gyfarwyddiaeth.</p> <p>3. Bydd cwestiynau am y broses o fonitro'r oergell laeth yn cael eu hychwanegu at Archwiliadau misol Tendable er mwyn rhoi sicrwydd bod yr holl wiriadau priodol yn cael eu cwblhau.</p> <p>4. Mae archwiliad hapwiriadau ategol Tendable wedi cael ei gynnal er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl safonau y tynnwyd sylw atynt yn yr arolygiad (gwiriadau'r oergelloedd llaeth, yr oergelloedd cyffuriau a'r cyfarpar dadebru). Bydd yr archwiliad ychwanegol hwn yn cael ei gynnal o leiaf</p>	<p>Yr Arweinydd Ansawdd a Diogelwch, Uwchnyrs, Nyrs Arwain</p> <p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Wedi'i gwblhau - gwaith monitro parhaus</p> <p>Ionawr 2024</p>
--	--	---	--	---

		ddwywaith y mis ar Ward Ynys hyd nes y bydd y gyfradd gydymffurfio â safonau yn amlwg. Bydd yr archwiliad hwn yn cael ei gynnal ym mhob ward yn yr Ysbyty i Blant Cymru.		
--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Andy Jones

Teitl swydd:

Cyfarwyddwr Nyrso/Bydwreigiaeth y Bwrdd Clinigol ar gyfer Plant a Menywod

Dyddiad:

06/12/2023

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 27 a 28 Tachwedd 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn ymwybodol o sut i ddefnyddio'r cyfarpar diogelu personol yn gywir mewn perthynas â gwisgo a diosg y cyfarpar.	1. Mae'r Ysbyty i Blant Cymru yn dilyn y protocol cenedlaethol ar gyfer gwisgo a diosg cyfarpar yn unol â'r Llawlyfr Cenedlaethol ar Atal a Rheoli Heintiau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ailbwysleisir y canllaw 'Yr arfer gorau: Gwisgo a Diosg y Cyfarpar Diogelu Personol' (Atodiad 1) i'r staff drwy'r Nyrs Arwain a'r Arweinydd Ansawdd a Diogelwch ar gyfer Ward ACH, Prif Nyrs y Ward a'r Dirprwyon. Wedi'i	Nyrs Arwain Arweinydd Ansawdd a Diogelwch ar gyfer yr ACH Prif Nyrsys y Ward a Dirprwyon	Wedi'i gwblhau ac yn barhaus

		<p>gwblhau a chynhelir sesiynau diogelwch dwywaith y dydd</p> <p>2. Bydd yr Addysgwr Ymarfer yn cynnal cofnodlyfr staff er mwyn dangos bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r canllaw 'Yr arfer gorau: Gwisgo a Diosg y Cyfarpar Diogelu Personol' a'u bod yn hyderus wrth ei ddefnyddio, gan ddarparu hyfforddiant ychwanegol yn ôl yr angen.</p> <p>3. Bydd y Polisi a'r Canllaw yn cael eu rhannu â phob aelod o staff newydd, a bydd tystiolaeth o hyn yn cael ei chofnodi ar y cofnodlyfr a gaiff ei gynnal gan Addysgwr Ymarfer y ward.</p>	<p>Addysgwr Ymarfer</p> <p>Addysgwr Ymarfer</p>	<p>23 Chwefror 2023</p> <p>Wedi'i gwblhau ac yn parhau</p>
	<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo a sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth.</p>	<p>1. Bellach, caiff troliau nodiadau y gellir eu cloi eu defnyddio ym mhob rhan o Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru.</p>	<p>Nyrs Arwain Ansawdd a Diogelwch Arweinydd ACH</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

		Prif Nyrs y Ward a Dirprwyon	
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried defnyddio blaenlythrennau'r cleifion yn hytrach na'u henwau llawn er mwyn diogelu cyfrinachedd.	<p>1. Yn dilyn cyfleu'r newidiadau a gynllunnir, mae blaenlythrennau'r cleifion bellach yn cael eu defnyddio ar fyrddau enwau ar bob ward yn Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru ers 12 Ionawr.</p> <p>2. Mae nodyn atgoffa clir wedi cael ei osod ar bob bwrdd enw er mwyn sicrhau mai dim ond blaenlythrennau'r claf fydd yn cael eu harddangos ac NID ei enw llawn.</p> <p>3. Bydd Archwiliad Tendable yn cael ei lunio gan y Nyrs Arwain, Arweinydd Ansawdd a Diogelwch ar gyfer ACH, Prif Nyrs y Ward a'r Dirprwyon. Cwblhau rhaglen</p>	<p>Nyrs Arwain Ansawdd a Diogelwch</p> <p>Arweinydd ACH</p> <p>Prif Nyrs y Ward a Dirprwyon</p> <p>Nyrs Arwain Ansawdd a Diogelwch</p> <p>Arweinydd ACH</p> <p>Prif Nyrs y Ward a Dirprwyon</p> <p>Nyrs Gwybodeg ar gyfer Pediatreg</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Mawrth 2024</p>

	Archwilio sy'n Benodol i Ofal er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu tystiolaeth ein bod yn parhau i gydymffurfio â'r broses o reoli'r byrddau enwau. Bydd yr archwiliad hwn yn cael ei gwblhau bob tri mis ar raglen archwiliad treigl.		
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod manylion y polisi cwynion yn cael eu harddangos ar y ward.	1. Mae posteri wedi cael eu llunio gan dîm profiad y claf (Atodiad 2) i sicrhau bod cleifion a theuluoedd yn ymwybodol o'r broses gwyno a sut i fynegi pryder. Maent bellach wedi cael eu harddangos mewn ardaloedd allweddol - Byrddau Gwybodaeth i Gleifion a'r Ystafell i Rieni.	Nyrs Arwain Ansawdd a Diogelwch Arweinydd ACH Prif Nyrs y Ward a Dirprwyon	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Mr Andy Jones
Teitl swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio
Dyddiad: 12 Ionawr 2024